25ain Chwefror 2020

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chwi i gyfarfod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i'w gynnal Nos Fawrth, 3ydd Mawrth 2020 am 6.00 o'r gloch yr hwyr yn Siambr y Cyngor, Adeilad yr Institiwt, Caernarfon i drafod materion ar y Rhaglen a ganlyn:-

Yn gywir,

Sion Wyn Evans
Clerc y Dref

Rhaglen

1.Ymddiheuriadau

2.Cyhoeddiadau'r Maer

3.Datgan Buddiant Personol

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

(i) Cyngor Llawn, 4ydd Chwefror 2020 (**Atodiad Gwyrdd**)
(ii) Panel Cyllid 11eg Chwefror 2020 (**Atodiad Pinc**)
(iii) Is Bwyllgor Adloniant 18fed Chwefror 2020 (**Atodiad Glas)**
(yng nghefn y rhaglen)

6.Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu.

7. Cyfrifon Incwm a gwariant a chysoni cyfrifon

8. Maerolaeth 2020 – 2021

I dderbyn ymateb ymweliad y cynigydd, eilydd a'r Maer Etholedig y Cynghorydd Maria Sarnacki.

9. Maerolaeth 2020– 2021

I enwebu Dirprwy Faer Etholedig am y flwyddyn 2020 – 2021.

10. Adeilad yr Institiwt

Cyflwyno adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad am y sefyllfa o ran y gwariant ar Adeilad yr Institiwt.

11. Y Gyllideb

Cyflwyno adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad o ran y gyllideb.

12. Ymgynghoriad ar y Trefniadau Archwilio yn y Dyfodol ar gyfer Cynghorau Cymunedol yng Nghymru

Cyflwyno gwybodaeth am ymgynghoriad sy'n cynnig, o 2020-21 ymlaen, rhaglen archwilio tair blynedd.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw'r 19eg o Fawrth.

Mae copi ar gael ar y bwrdd.

13. Aelodaeth Un Llais Cymru 2020/21

Cyflwyno gohebiaeth gan Un Llais Cymru, yn cynnwys ffurflen i adnewyddu aelodaeth ar gyfer 2020/21.

14. (a) Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2020

(b) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol adroddiad atodol drafft - yr egwyddorion sy'n ymwneud ag ad-dalu costau gofal

Cyflwyno gohebiaeth o ran yr uchod, ynghyd â llythyr eglurhaol gan y Cadeirydd, Mr John Bader.

Gofynnir am sylwadau erbyn y 9fed o Ebrill 2020.

15. Hen Fynwent Llanbeblig

Cyflwyno adroddiad llafar y Clerc yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa.

16.Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Cyflwyno gohebiaeth ar yr uchod, sy'n cynnig cyfleoedd i'r Cyngor Tref.

17. Cylch Cyfeillgarwch y Trefi Caerog

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar y 27ain o Dachwedd, 2019.

18. Gwasanaeth Fasgiwlaidd yng Ngogledd Cymru

Cyflwyno llythyr gan Vaughan Gething AC ynglŷn â'r uchod.

19.Gohebiaeth Amrywiol

Cyflwyno, er gwybodaeth, ohebiaeth o ran y canlynol (copïau i'w dosbarthu ar y bwrdd):

- Spring Clean Cymru – 20fed Mawrth – 13eg Ebrill
- Teenage Cancer Trust Cymru

20. Gwasanaeth Ieuenctid – Cyfarfod gyda Chynghorau Tref / Cymuned eraill sy'n rhoi arian i'r Gwasanaeth

Cyflwyno cais gan y Clerc i Aelod / Aelodau i fynychu cyfarfod ynglŷn â'r Gwasanaeth Ieuenctid gydag ef.

Bydd y Clerc yn darparu manylion ar y cais yn y cyfarfod.

21. Cwestiynau